# Hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion ar gyfer hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd i wella’r gwasanaeth a ddarperir. Mae'n golygu cyd-fynd â threfniadau sicrhau ansawdd sydd wedi'u dilysu'n allanol. Mae’n rhaid i chi fynd ati ar y cyd i gynllunio, datblygu, monitro ac adolygu gweithdrefnau a systemau ansawdd er mwyn gwella'n barhaus.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi’r gofynion ar gyfer gweithdrefnau a systemau ansawdd sy’n cyd-fynd â threfniadau sicrhau ansawdd sydd wedi’u dilysu’n allanol
2. cael yr adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu gweithdrefnau a systemau ansawdd
3. gweithio ag unigolion ac eraill i gynllunio’r gwaith o ddatblygu gweithdrefnau a systemau ansawdd sy’n cwrdd â gofynion rheoleiddiol
4. gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a sefydlu gweithdrefnau a systemau ansawdd ag unigolion ac eraill
5. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gynllunio’r gwaith o fonitro ac adolygu gweithdrefnau a systemau ansawdd
6. sicrhau bod unigolion ac eraill yn cael gwybod am systemau ansawdd a’u heffaith ar ymarfer
7. hybu’r defnydd o wybodaeth sy’n seiliedig ar dystiolaeth wrth fonitro gweithdrefnau a systemau ansawdd
8. arwain a chynorthwyo unigolion ac eraill wrth wella’n barhaus
9. gweithio mewn partneriaeth i archwilio cydymffurfiad â gweithdrefnau a systemau ansawdd
10. cydlynu’r gwaith o fonitro a gwerthuso gweithdrefnau a systemau ansawdd
11. casglu tystiolaeth i nodi gweithdrefnau a systemau ansawdd effeithiol, a'r newidiadau sydd eu hangen
12. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu a mynd i’r afael â newidiadau i weithdrefnau a systemau ansawdd
13. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithdrefnau a systemau ansawdd
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae sicrhau bod gweithdrefnau a systemau sicrhau ansawdd yn cyd-fynd â threfniadau sicrhau ansawdd sydd wedi'u dilysu'n allanol
2. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac arferion cynhwysol wrth ddatblygu gweithdrefnau a systemau ansawdd
3. dylanwad diwylliant a chefndir unigolion ac eraill wrth ddatblygu gweithdrefnau a systemau ansawdd
4. yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer datblygu gweithdrefnau a systemau ansawdd
5. sut mae cynnwys unigolion ac eraill yn y gwaith o gynllunio a datblygu gweithdrefnau a systemau ansawdd
6. yr ystod o systemau sicrhau ansawdd sydd ar gael a'r gwahaniaethau rhyngddyn nhw
7. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn gweithdrefnau a systemau ansawdd
8. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol o ran cymorth ar weithdrefnau a systemau ansawdd
9. dulliau rhannu gwybodaeth am systemau ansawdd a'u heffaith ar ymarfer
10. yr ystod a'r math o dystiolaeth sy'n dangos effeithiolrwydd systemau ansawdd
11. sut mae cynnwys unigolion ac eraill yn y gwaith o fonitro ac adolygu gweithdrefnau a systemau ansawdd
12. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd
13. dulliau monitro a gwerthuso gweithdrefnau a systemau ansawdd
14. sut mae gwneud dyfarniadau gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd gweithdrefnau a systemau ansawdd
15. pam mae'n bwysig cael cynllun wedi'i amseru ar gyfer adolygu systemau ansawdd a rhoi newid ar waith
16. pwysigrwydd gwella'n barhaus â gweithdrefnau a systemau ansawdd
17. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd
18. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth adolygu a newid gweithdrefnau a systemau ansawdd
19. sut y gellir defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol wrth hybu gweithdrefnau a

systemau ansawdd
20. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i ddarparu tystiolaeth o ansawdd gwasanaethau
21. theorïau sy’n berthnasol i hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd
24. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd
25. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu mewn gweithdrefnau a systemau ansawdd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Hybu gweithdrefnau a systemau ansawdd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD334 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Hybu Gweithdrefnau a Systemau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |